Bwletin rieni 29/01/21

Annwyl Riant/Warcheidwad

Heddiw disgwyliwn gyhoeddiad am y camau nesaf ar gyfer ysgolion. Mae ansicrwydd yn her i bawb yn ystod yr amser anodd hwn a gall hwn effeithio lles pob unigolyn. Byddwn ni, wrth gwrs yn cefnogi wythnos iechyd meddwl plant wythnos nesaf.

Bydd gwaith annibynnol craidd cyfnod allweddol 3 yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles, ond mae'n bwysig i ddisgyblion a rhieni gwybod bod cefnogaeth ar gael trwy'r ysgol ac asiantaethau eraill er enghraifft Meic: gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru (www.meiccymru.org neu 080880 23456).
Mae nifer o gysylltiadau lles hefyd ar gael i ddisgyblion trwy 'Team' y flwyddyn.

Noson Rieni Blwyddyn 11 a Phrynhawn i Holi

Gobeithiaf fod y prynhawn i holi wedi bod yn ddefnyddiol i chi sydd heb gael cyfle i drafod gydag athrawon. Bydd nosweithiau rieni arferol yn parhau, gyda noson rieni blwyddyn 11 ar yr 8fed o Chwefror.

Cwestiynau am addysgu ac asesu TGAU, UG a Safon Uwch

Deallaf fod nifer o gwestiynau wedi codi yn ystod nosweithiau rieni a chyfleoedd i holi. Mae'n gyfnod ansicr wrth i ddisgyblion blwyddyn 10-13 wynebu haf arall heb arholiadau ffurfiol traddodiadol. Mae cymaint o gwestiynau yn parhau a bydd penderfyniadau yn dod o nifer o sefydliadau. Rhai allweddol yw:

Cymwysterau Cymru:
Cymwysterau Cymru / Gwybodaeth i ddysgwyr (qualificationswales.org)
Cymwysterau Cymru / Cwestiynau Cyffredin (qualificationswales.org)
Cymwysterau Cymru (@cymwysterau_cym) / Twitter

CBAC:
Asesiadau 2021: Sicrhewch eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch (cbac.co.uk)
CBAC (@cbac_wjec) / Twitter

Y Gweinidog Addysg:
Kirsty Williams (@wgmin_education) / Twitter

Dyma'r wybodaeth sydd gennym hyd yn hyn:

Cynnwys y cyrsiau

Ar ddechrau'r flwyddyn cyhoeddwyd newidiadau i gynnwys cyrsiau arholiad, yn lleihau'r cynnwys i adlewyrchu'r gostyngiad yn yr amser oedd ar gael i addysgu. Ers cyhoeddiad y gweinidog ar yr 20fed o Ionawr, mae rhyddid gan athrawon i dargedu elfennau allweddol pob cwrs. Bydd athrawon yn adnabod y cynnwys sydd yn allweddol trwy ystyried yr agweddau sy'n angenrheidiol ar gyfer parhau gydag astudiaethau yn y pwnc neu bynciau tebyg. Bydd y broses asesu yn canolbwyntio ar y cynnwys mae'r disgyblion wedi astudio, gan ystyried effaith y cyfnodau clo cenedlaethol a chyfnodau hunan-ynysu.

Y broses asesu

Ar gyfer TGAU/UG/Safon Uwch:

Bydd yr ysgol yn creu cynllun asesu clir ar gyfer pob cwrs. Nid oes canllawiau wedi dod ar gyfer hwn eto. Bydd y cynllun asesu yn cael ei wirio a'i gymeradwyo'n allanol, a bydd hyfforddiant i gefnogi'r broses asesu. Ar ôl llunio'r cynllun asesu a chadarnhau hwn gyda CBAC, bydd y broses asesu yn nwylo'r ysgol – bydd canlyniadau'r cwrs yn dod o fwydo canlyniadau tasgau asesu mewn i'r cynllun asesu.

Elfennau gall cael eu cynnwys yn y cynllun asesu yw:

- Asesiadau dan reolaeth sydd wedi eu cyflawni e.e. tasgau llafar, traethodau, gwaith ymarferol, llyfrau braslunio ayb. Gall y rhain cael eu cyflawni gan ddisgyblion ac asesu yn yr ysgol fel arferol. Ni fydd y bwrdd arholi yn casglu marciau'r tasgau unigol felly mae gan yr ysgol fwy o hyblygrwydd gydag amseru'r tasgau hyn.
- Asesiadau wedi eu haddasu gan CBAC. Bydd y bwrdd arholi yn darparu ystod o ddeunydd asesu wedi ei addasu - tybiwn fydd hwn yn cynnwys hen bapurau arholiad neu asesiadau dan reolaeth. Bydd yr ysgol yn medru dewis rhai sy'n addas, neu addasu ymhellach os oes angen. Mae ysgolion yn cael eu hannog i gynnwys y rhain yn eu prosesau asesu, ond ni fydd Penweddig y gwneud penderfyniad tan fod yr asesiadau yn cael eu cyhoeddi.
- Darnau gwaith sylweddol sydd wedi eu cyflawni yn ystod y cwrs. Gall y rhain cynnwys asesiadau cyflawnwyd yn ystod tymor yr hydref 2020 a 2019 a gwaith sydd wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod clo neu'r cyfnod ar ôl i ni ddychwelyd.

Byddwn ni'n sicrhau bod yr asesiadau yn seiliedig ar waith mae disgyblion wedi cael y cyfle i gwblhau. Gallwn ystyried effaith COVID a hunanasesu ar astudiaethau unigolion gan fod y broses yn canolbwyntio ar beth maent wedi astudio nid y pethau sydd heb eu hastudio. Serch hynny, os mae disgybl wedi penderfynu peidio cyflawni tasg ar ôl cael amser digonol ac nad oes rheswm swyddogol, gall hwn effeithio ar ei radd.

Ar gyfer UG yn unig

Bydd graddau UG yn cael eu hasesu, ac os yw disgybl yn gorffen cwrs ar ddiwedd blwyddyn 12 bydd e'n derbyn hwn fel gradd derfynol. Os yw'r disgybl yn parhau gyda'r cwrs ar gyfer safon uwch dim ond marciau arholiadau lefel A Haf 2022 bydd yn cyfrannu at y radd.

Bagloriaeth Cymru

Mae'r asesiadau unigol sy'n rhan o'r Bac yn ffurfio'r cynllun asesu felly mae'n bwysig cwblhau pob asesiad sy'n cael ei roi.

BTEC

Mae BTEC yn defnyddio graddau ar lefel uned i ffurfio'r radd derfynol. Mae llawer o'r unedau yn asesiadau o waith trwy'r tymor, ond mae ychydig yn arholiadau. Ni fydd yr arholiadau'n parhau, ond defnyddiwn raddau unedau sydd wedi eu cwblhau fel rhan o'r broses asesu felly mae'n bwysig cwblhau'r unedau mae'r athrawon yn cyflwyno er mwyn derbyn gradd yn y cyrsiau hyn yn yr haf.

Blwyddyn 10

Neges Cymwysterau Cymru ar gyfer blwyddyn 10 yw:

"Os ydych wedi cwblhau'r cwrs a'ch bod yn mynd i gael eich cofrestru ar gyfer y cwrs TGAU llawn eleni, yna gallwch gael gradd wedi ei phennu gan eich ysgol. Er hynny, ni fydd yn bosibl cymryd rhai unedau TGAU yn unig eleni, a bydd angen inni ystyried beth fydd y trefniadau asesu ar gyfer y pynciau hynny'r flwyddyn nesaf. "

Mae hwn yn effeithio arholiadau gwyddoniaeth i bawb – mae'n bosib iawn bydd y trefniadau yn debyg i rai AS h.y. gradd derfynol yn seiliedig ar arholiadau blwyddyn 11 yn unig. Mae hwn hefyd yn effeithio arholiadau modiwl ar gyfer rhai pynciau eraill.

Trafod graddau

Yn ystod y broses asesu ar gyfer haf 2020 roedd canllawiau clir wedi dod o'r llywodraeth am beth oedd modd rhannu gyda rhieni a beth oedd ddim. Rydyn ni'n parhau i ddilyn canllawiau tebyg, felly mae modd i athrawon trafod marciau a graddau am dasgau unigol a'u gwaith yn ystod y tymor diwethaf. Nid oes modd rhannu'r graddau rydyn ni'n disgwyl rhoi i ddisgyblion tan bo'r canllawiau yn gliriach.

Cyhoeddi canlyniadau

Mae Lloegr wedi awgrymu dyddiadau canlyniadau yn gynnar ym mis Gorffennaf. Nid yw sefyllfa Cymru yn glir ar hyn o bryd.

Trefniadau arholi yn y dyfodol

Mae cwricwlwm newydd yn dod i Gymru ar gyfer blwyddyn 7 o Fedi 2022 a bydd hwn yn arwain at gyrsiau TGAU newydd. Mae Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar y rhain ac mae cyfle i chi leisio'ch barn am y cymwysterau bydd yn cael eu cynnig i ddisgyblion sydd ar hyn o bryd ym mlwyddyn 5 ac iau. Mae manylion yr ymgynghoriad isod.

Lansio'r ymgynghoriad – Cymwys ar gyfer y dyfodol: Y dewis cywir i Gymru.

Heddiw rydym yn lansio ein hymgynghoriad Cymwys ar gyfer y dyfodol: Y dewis cywir i Gymru. O nawr tan 9 Ebrill, byddwn yn ymgynghori ynghylch pa gymwysterau ddylai fod ar gael fel rhan o'r cwricwlwm newydd.

Rydyn ni'n gwybod ei fod yn gyfnod eithriadol o brysur a heriol i bawb. Rydyn ni'n gwneud hyn nawr fel y gall pawb ddweud eu dweud ar y penderfyniadau pwysig hyn a rhoi digon o amser i ysgolion a dysgwyr baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau.

Rydyn ni wedi ceisio ei gwneud mor hawdd a chyflym â phosibl i bobl ddweud wrthym beth sydd bwysicaf iddyn nhw. Rydyn ni wedi gweithio gydag arbenigwyr addysg i feddwl am syniadau am yr hyn y dylai'r dewis o gymwysterau ei gynnwys. Nawr, rydyn ni am brofi'r syniadau hynny a gweld beth yw eich barn chi.

Mae'r dogfennau ymgynghori canlynol ar gael ar ein gwefan:

- *Prif ddogfen ymgynghori*
- *Crynodeb / fersiwn sy'n addas i bobl ifanc*
- *Dogfen briffio i ddysgwyr a dogfen briffio cyffredinol*
- *Adnoddau hyrwyddo*
- *Stori Newyddion*
- *Cwestiynau Cyffredin*

Gobeithiaf fod pawb yn parhau yn iach. Cofiwch ein bod yma i ymateb i gwestiynau neu sylwadau. Gallwch gysylltu trwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)